

Pŵer Carbon Isel Cei Connah

Cylchlythyr y Prosiect

Chwefror 2024

Croeso i gylchlythyr cymunedol cyntaf prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (CQLCP) Uniper. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn anfon cylchlythyrau rheolaidd atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynnydd a'ch gwneud yn ymwybodol o unrhyw gerrig milltir pwysig sydd ar ddod.

Yn safle ein gorsaf bŵer bresennol yng Nghei Connah, rydym yn cynnig datblygu gorsaf bŵer tyrbîn nwy cylch cyfun newydd gyda thechnoleg dal carbon. Byddai hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i gynhyrchu trydan mewn ffordd hyblyg a dibynadwy, gan ddal allyriadau carbon a chefnogi'r broses o drosglwyddo'r DU i system ynni carbon isel.

Fel preswlydd lleol, rydym am glywed eich barn ar ein cynigion cyfnod cynnar yn ein hymgyngoriad cyhoeddus anstatudol sydd ar ddod, a fydd yn rhedeg o **ddydd Llun 26 Chwefror 2024 i ddydd Llun 25 Mawrth 2024**. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi cyflwyniad i'r prosiect, crynodeb o'n cynigion, manylion digwyddiadau ymgynghori sydd i ddod a gwybodaeth am sut y gallwch gymryd rhan.

"Yn Uniper mae'n bleser gennym gyhoeddi'r prosiect hwn, a allai chwarae rhan bwysig wrth gefnogi trosglwyddiad y wlad i gynhyrchu ynni carbon isel a diwallu'r angen cynyddol am drydan, pryd bynnag mae'n ofynnol."

Helen Rogers,
Rheolwr Prosiect Uniper

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio system drydan y DU erbyn 2035, yn amodol ar sicrwydd cyflenwad. Byddai gan CQLCP ran allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwn, gan gefnogi trosglwyddiad ehangach y DU i ddyfodol sero net. Byddai'n cynhyrchu pŵer dibynadwy, hyblyg ac effeithlon, gyda thechnoleg dal carbon i ddal allyriadau CO₂. Yna byddai'r CO₂ a ddaliwyd yn cael ei gludo i gyfleusterau storio ar y môr parhaol mewn meysydd nwy ar y môr disbyddedig wedi'u hail-bwrpasu.



This document is also available in English on our website here.

Ynglŷn ag Uniper


Mae Uniper yn gwmni ynni rhyngwladol gyda gweithgareddau mewn mwy na 40 o wledydd, ac mae ganddo tua 7,000 o weithwyr ledled y byd. Yn y DU, mae Uniper yn berchen ar bortffolio cynhyrchu hyblyg o saith gorsaf bŵer, ac yn eu gweithredu, a chyfleuster storio nwy cylch cyflym a dwy bibell nwy pwysedd uchel.

Mae Uniper yn bwriadu bod yn gwbl garbon-niwtral erbyn 2040, a'i nod yw i'w gapasiti cynhyrchu pŵer gosodedig fod yn fwy nag 80% di-garbon erbyn 2030. Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, mae wedi ymrwymo i fuddsoddi €8 biliwn mewn prosiectau twf a thrawsnewid rhwng nawr a diwedd y ddegawd. Mae hyn yn cynnwys datgarboneiddio ei bwerdai a'i gyfleusterau presennol a buddsoddi mewn unedau cynhyrchu pŵer hyblyg, newydd, y gellir eu danfon.

Ffeithiau allweddol am ein cynigion



Gall CQLCP gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio'r National Grid, gan ddarparu pŵer pan nad oes digon o gynhyrchiant o'r gwynt a'r haul



Mae ein safle yng Nghei Connah yn lleoliad delfrydol ar gyfer gorsaf bŵer carbon isel newydd, ar ôl bod yn cynhyrchu ynni ar y safle ers y 1950au



Mae'r seilwaith hanfodol sydd ei angen ar gyfer cynhyrchu ynni eisoes yn ei le, gan gynnwys cysylltiadau â'r grid trydan cenedlaethol a phiblinell y gellir ei hailosod a'i defnyddio i gludo CO₂ a ddaliwyd



Pan fydd CQLCP yn gwbl weithredol, gallai gynhyrchu digon o drydan carbon isel i bweru hyd at 2.8 miliwn o gartrefi'r flwyddyn



Pan fydd yn gwbl weithredol, ac ar yr allbwn mwyaf, gallai'r CQLCP ddal a storio hyd at 3.7 Mt o CO₂ y flwyddyn, gan gyfrannu at drawsnewid y DU i sero net




Gallai CQLCP gyfrannu at dwf economaidd, gan ddiogelu swyddi technegol medrus a chreu cyfleoedd newydd yn ystod y cyfnod adeiladu

Ein map dangosol o'r safle

Mae'r map isod yn darparu lleoliadau dangosol ar gyfer y seilwaith a fyddai'n cael ei adeiladu ar ein safle ar gyfer y CQLCP. Sylwch fod y cynlluniau hyn yn dal yn y camau datblygu cynnar ac y gallent newid yn dilyn adborth ac ymgynghoriad â chyrff statudol cenedlaethol, awdurdodau lleol a'r gymuned leol.



Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a manylion am ein cynnydd gyda'r CQLCP yn www.uniper.energy/connahs-quay-low-carbon-power
Sganiwch y cod QR i fynd i'n gwefan



Allwedd:



Man gosod i lawr



Trên 1 CCGT a Gwaith Dal Carbon



Trên 2 CCGT a Gwaith Dal Carbon



Cysylltiad â'r Grid



Piblinellau wedi'u hail-bwrpasu

Mae'r map hwn at ddibenion enghreifftiol yn unig

Ein cynlluniau ar gyfer Cei Connah

Beth yw prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah

Mae Cei Connah wedi bod yn gartref i orsaf bŵer ers y 1950au ac mae'n lleoliad delfrydol ar gyfer cynhyrchu ynni. Mae'n agos at ddatblygu seilwaith dal carbon i wasanaethu ymdrechion datgarboneiddio diwydiannol lleol, mae ganddo seilwaith ynni hanfodol eisoes yn ei le ac mae'n elwa ar arbenigedd y gweithlu medrus iawn presennol.

Mae'r prosiect yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu gorsaf bŵer tyrbin nwy cylch cyfun newydd ar dir Uniper yn ei safle yng Nghei Connah. Bydd yr orsaf bŵer newydd yn cael ei gosod gyda thechnoleg dal carbon i ddal allyriadau CO₂. Byddai'r CO₂ a ddaliwyd wedyn yn cael ei gludo drwy biblinell bresennol at gyfleusterau storio ar y môr parhaol mewn meysydd nwy ar y môr wedi'u disbyddu.

Mae'r seilwaith presennol ar y safle, gan gynnwys cysylltiadau â'r grid trydan cenedlaethol a phiblinell nwy wedi'i haddasu, yn golygu mai Cei Connah yw'r lleoliad delfrydol ar gyfer gorsaf bŵer carbon isel newydd.

Os rhoddir caniatâd, disgwylir i'r orsaf bŵer newydd gael ei datblygu mewn dau gam; gyda chpasiti cychwynnol o hyd at 550MW o bŵer carbon isel, a photensial yn ddiweddarach i ehangu i tua 1.1GW. Gallai cam un fod yn weithredol erbyn 2030.

Mae'r prosiect yn y camau cynnar a bydd y capasiti terfynol yn cael ei bennu ar ôl cwblhau'r cam Peirianeg a Dylunio Pen Blaen, sydd i fod i ddechrau yn nes ymlaen yn 2024. Mae gan bob cam unigol o'r orsaf bŵer newydd gapasiti uchaf posibl o hyd at 690MW, gan ddarparu uchafswm o 1.38GW o bŵer carbon isel.

Mae'r CO₂ a gesglir yn dibynnu ar faint o drydan a gynhyrchir, a fydd yn amrywio i gyfateb i anghenion y galw. Ar sail ein modelu presennol, rydym yn disgwyl casglu hyd at 1.2Mt y flwyddyn ar gyfer uned sengl 550MW a hyd at 2.4Mt ar gyfer capasiti 1.1GW yn gyffredinol. Ar yr allbwn mwyaf, ar gyfer gorsaf bŵer 1.1GW, gallai'r ffigur fod mor uchel â 3.7Mt y flwyddyn.

Rôl nwy yn y broses o drawsnewid i ynni adnewyddadwy

Yr her fwyaf wrth drawsnewid i ynni adnewyddadwy yw cydbwysu'r amrywiadau yn y cyflenwad pŵer, o'r cynnydd yn y ffynonellau cynhyrchu adnewyddadwy sy'n dibynnu ar y tywydd. Byddai gorsaf bŵer tyrbin nwy cylch cyfun newydd gyda thechnoleg dal carbon yng Nghei Connah, yn chwarae rhan hollbwysig yn system ynni'r dyfodol, gan y gall helpu i sicrhau bod ynni ar gael ar adegau pan fydd ei angen fwyaf, a phan na all pŵer o ffynonellau adnewyddadwy ddiwallu'r galw.

Nod Uniper yw cyflymu'r cam trawsnewid i ynni adnewyddadwy ac ar yr un pryd ateb yr her o gyflenwad trydan datgarbonedig dibynadwy. Ac felly rydyn ni'n buddsoddi i ddatgarboneiddio ein pŵer presennol a datblygu gallu cynhyrchu carbon isel newydd a hyblyg.

Rôl dal carbon

Mae technoleg dal a storio carbon yn elfen annatod o brosiect CQLCP. Byddai'r orsaf bŵer arfaethedig yn defnyddio technoleg sydd eisoes wedi'i sefydlu i ddal y CO₂ y mae'r orsaf bŵer yn ei ollwng. Yna byddai'r CO₂ a ddaliwyd yn cael ei gludo i gyfleusterau storio ar y môr parhaol mewn meysydd nwy ar y môr disbyddedig ac wedi'u hail-bwrpasu.

Mae technoleg CCS yn hollbwysig wrth drawsnewid i ynni adnewyddadwy. Er mwyn diwallu'r galw cynyddol am drydan a chyflawni nodau datgarboneiddio'r DU, bydd angen amrywiaeth o dechnolegau gwahanol, gan gynnwys nwy gyda CCS, i gynnal cyflenwad diogel a sefydlog o drydan.

Ein hymrwymiaadau amgylcheddol

Mae Uniper yn falch o'r rôl rydyn ni'n ei chwarae wrth warchod yr amgylchedd lleol yng ngorsaf bŵer Cei Connah. Rydym eisoes yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau lleol i gynnal safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) ar ein tir ar aber Afon Dyfrdwy. Mae hyn yn cynnwys darparu a chynnal canolfan astudiaethau maes, cuddfannau ac arsyllfa, yn ogystal â chynllun rheoli tir i wneud y gorau o'r amrywiaeth ecolegol.

Fel rhan o'r broses gynllunio, byddwn yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith Amgylcheddol i ganfod unrhyw effeithiau amgylcheddol posibl. Drwy gydol cyfnod cyn gwneud y cais y prosiect, byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid lleol i ddeall unrhyw bryderon, a chymryd camau i warchod cynefinoedd presennol a gwella bioamrywiaeth.

Beth fydd y prosiect yn ei gynnig yn lleol?

Yng Nghei Connah, rydym yn benderfynol o barhau i fod yn gymydog da ac i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol. Mae gorsaf bŵer Cei Connah wedi bod yn gyflogwr pwysig yn yr ardal leol ers degawdau. Gallai'r prosiect CQLCP helpu i gynnal ffyniant economaidd yng Nglannau Dyfrdwy, drwy ddiogelu swyddi medrus iawn a chreu cyfleoedd newydd yn ystod y gwaith adeiladu a thrwy'r gadwyn gyflenwi ehangach.

Mae'r ganolfan addysg yng Nghei Connah yn cael ei haildatblygu ar hyn o bryd, a gallai chwarae rhan bwysig yn ein cynlluniau i helpu ysgolion lleol i gyflwyno gwersi gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg.



Ymgynghori a'r camau nesaf

Megis dechrau y mae cynigion i ddatblygu gorsaf bŵer carbon isel newydd yng Nghei Connah. Er bod gennym gynlluniau cychwynnol ar gyfer y prosiect, rydym yn dechrau proses o ymgynghori ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff statudol, awdurdodau lleol, busnesau, grwpiau cymunedol a thrigolion lleol. Byddwn yn cynnal rhaglen ymgynghori a fydd yn dechrau yn ddiweddarach y mis hwn ac yn parhau hyd nes y byddwn yn cyflwyno ein cais i'r Arolygiaeth Gynllunio, y disgwyliwn ei gwblhau yn ddiweddarach yn 2024.

Bydd y safbwyntiau a fynegir gan yr holl randdeiliaid, ynghyd â chanlyniadau asesiadau amgylcheddol ac astudiaethau technegol, yn cael eu hystyried yn ofalus, a lle bo modd, byddant yn llywio ein cynlluniau ar gyfer y prosiect.



Digwyddiadau wyneb yn wyneb:

Dydd Sadwrn, 2 Mawrth 2024
Clwb Criced Cei Connah CH5 4DZ
13:00 - 17:00

Dydd Llun 4 Mawrth 2024
Neuadd y Dref y Fflint CH6 5NW
16:00 - 20:00

Dydd Mercher 6 Mawrth 2024
Canolfan Gynadledda, Coleg Cambria
Glannau Dyfrdwy CH5 4BR
13:00 - 17:00

Gweminarau ar-lein:

Dydd Mercher, 28 Chwefror 2024
18:00 - 19:00

Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2024
13:00 - 14:00



Sganiwch y cod QR i gofrestru ar gyfer ein gweminarau.

Ble i ddarganfod mwy



I gael rhagor o wybodaeth am ein prosiect, ewch i www.uniper.energy/connahs-quay-low-carbon-power neu sganiwch y cod QR i gael eich cyfeirio at ein gwefan.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hymgyngoriad yn hygyrch i bawb. Bydd ein gwefan a holl ddeunyddiau allweddol y prosiect, gan gynnwys y cylchlythyr hwn, ar gael yn Gymraeg. Gallwn hefyd ddarparu ein deunyddiau mewn fformatau amgen, fel print bras a braille, ar gais. Os oes angen unrhyw rai o'n deunyddiau arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir uchod.

Cysylltu â ni

Os hoffech siarad â ni am y prosiect, gallwch gysylltu â'n Tîm Cysylltiadau Cymunedol gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt ganlynol:

E-bostiwch ni yn info@connahsquaylcp.co.uk | Ffoniwch ni ar **0800 0129156** | Ysgrifennwch atom: **Freeport CQLCP**